

**FFURFLEN 5****Ffurflen Ganiatâd a Gwybodaeth (plant dan 11 oed)**

Enw'r Lle Addoli / Sefydliad: \_\_\_\_\_

Grŵp (gan gynnwys diwrnod/amser y gweithgaredd): \_\_\_\_\_

Enw llawn y plentyn / person ifanc: \_\_\_\_\_

Dyddiad Geni: \_\_\_/\_\_\_/\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

Enw'r Meddyg Teulu: \_\_\_\_\_ ffôn: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

Dyddiad y brechiad gwrth-tetanus olaf, os gwyddoch hynny: \_\_\_\_\_

Nodwch unrhyw feddyginiaeth a gymerir yn rheolaidd, unrhyw anhawster meddygol (e.e. asthma, epilepsi, alergedd, anghenion deiet etc.) neu anabledd a allai effeithio ar weithgarwch arferol y plentyn. Hefyd, nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai gynorthwyo'r arweinydd o ran cynnal a gofalu am y plentyn yn effeithiol.

Cytunaf i roi gwybod i arweinwyr y grŵp, mewn ysgrifen, os yw'r manylion uchod yn newid.

Enw'r rhieni / gofalyddion: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn: Dydd..... Nos .....

Rhiant/Gofalydd Ffôn symudol 1\_\_\_\_\_ Ffôn symudol 2\_\_\_\_\_

Enw cyswllt ychwanegol (e.e Nain/ Mam-gu, Taid/ Tad-cu neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant)

Enw:\_\_\_\_\_Teleffôn: \_\_\_\_\_

Os nad ydych yn meddu ar gyfrifoldeb rhiant (e.e. chi yw'r gofalydd maeth neu Nain/Taid y plentyn) nodwch fanylion y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant:

Enw(au): \_\_\_\_\_ ffôn: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

Rwy'n cytuno i \_\_\_\_\_ (enw'r plentyn)

**gymryd rhan yng ngweithgareddau arferol y grŵp.**

Rwy'n deall y bydd angen caniatâd ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau megis nofio a digwyddiadau sy'n gorffen yn hwyrach nag amser arferol y grŵp. Rwy'n deall y bydd y plentyn dan ofal a rheolaeth arweinydd y grŵp ac/neu oedolion eraill a gymeradwyir gan y lle addoli/sefydliad. Deallaf hefyd y bydd y staff sydd yng ngofal y grŵp yn gofalu am y plant cymaint â phosib, ac o fewn rheswm, ond ni fyddant o reidrwydd yn gyfrifol am unrhyw golled, difrod neu niwed a ddioddefir gan fy mhlentyn yn ystod y gweithgaredd, neu o ganlyniad i'r gweithgaredd.

**Mewn argyfwng, rwy'n caniatáu i'm plentyn gael triniaeth feddygol.**

Pan fo angen cyngor neu driniaeth feddygol, gwneir pob ymdrech i gael cymorth Meddyg Teulu neu Adran Ddamweiniau ac Argyfwng mewn ysbyty. Yn ôl Deddf Plant 1989 mae modd i feddyg drin plentyn trwy wneud 'yr hyn sy'n resymol yn yr amgylchiadau sydd ohoni er mwyn diogelu neu wella lles y plentyn'. Serch hynny, byddwn yn cysylltu â'r rhiant/gofalydd cyn gynted ag y bo modd er mwyn rhoi gwybod beth sy'n digwydd.

**Cludiant**

Oni bai fod trefniadau penodol wedi eu cytuno, ni fydd yr arweinwyr yn gyfrifol am gludo'r plant i weithgareddau'r grŵp ac oddi yno. Os yw rhieni'n dymuno rhannu cludiant, trefniadau preifat ymhlith ei gilydd fydd hynny.

Mewn argyfwng, neu er mwyn cael cymorth feddygol, gallai plentyn gael ei g/chludo yng ngherbyd arweinydd neu oedolyn cymeradwy arall.

**Adrodd am Ddamwain/Digwyddiad:** Nodir manylion unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad yn Nghofnod Damweiniau/Digwyddiadau yr eglwys, a bydd y mater yn cael ei drafod gyda'r rhieni/gofalyddion cyn gynted ag y bo modd.

Llofnod: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

